# Bil Cynllunio (Cymru) Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2

## Y wybodaeth ddiweddaraf am y Bil

Mai 2015

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prif newidiadau a wnaed i'r Bil Cynllunio (Cymru) ("y Bil") yn ystod trafodion Cyfnod 2.

## Cefndir

Gosodwyd Bil Cynllunio (Cymru) ar **6 Hydref 2014** ac fe'i cyflwynwyd yn y Cyfarfod Llawn gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar 7 Hydref 2014.

Rhoddwyd y gwaith o graffu ar y Bil Cynllunio (Cymru) i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Ar 23 Medi 2014, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y dyddiad cau ar gyfer adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor, sef 30 Ionawr 2015, a'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau trafodion Cyfnod 2 y Pwyllgor, sef 27 Mawrth 2015.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei **adroddiad Cyfnod 1** ym mis Ionawr 2015. Hefyd, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei **adroddiad Cyfnod 1** ar y Bil yn yr un mis.

Cymeradwyodd y Cynulliad y Bil yng Nghyfnod 1 yn dilyn dadl ar ei egwyddorion cyffredinol yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Chwefror 2015.

Dechreuodd Cyfnod 2 y Bil ar 11 Chwefror 2015.

**Cyflwynwyd cyfanswm o 205 o welliannau, Llywodraeth Cymru a gyflwynodd 56 ohonynt.**

Cyfarfu'r Pwyllgor i ystyried a gwaredu'r gwelliannau ar 18 Mawrth a 26 Mawrth 2015. Mae cyfran fawr o'r gwelliannau yn rhai mân, ac yn ymdrin yn bennaf â newidiadau bach i eiriad.

Mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd yn ystod Cyfnod 2, ar gael **yma**.

*Mae rhagor o wybodaeth am y Bil (fel y'i cyflwynwyd) ar gael yn y ddogfen **Crynodeb o Fil** a baratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil.*

## Gwelliannau allweddol a dderbyniwyd yng Nghyfnod 2

*Noder fod y rhifau adrannau yn cyfeirio at y Bil fel y'i cyflwynwyd, ac eithrio lle mae adran newydd wedi cael ei hychwanegu.*

### Y Gymraeg

Mae gwelliannau 1-3 (Carl Sargeant) yn ymwneud â'r Gymraeg.

Mae'r gwelliannau hyn yn cyflwyno gofynion i *Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004* **gynnal asesiadau** o effeithiau tebygol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, y Cynlluniau Datblygu Strategol a'r Cynlluniau Datblygu Lleol **ar y defnydd o'r Gymraeg**. Mae'r gwelliannau hyn yn ymwneud ag argymhelliad (6) gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ystyriaeth briodol wrth lunio cynlluniau datblygu ar bob lefel.

### Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Roedd gwelliant 46 (Carl Sargeant) yn mewnosod dwy is-adran newydd yn adran 60 (fel y caiff ei fewnosod gan adran 2 o'r Bil) o *Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004* mewn perthynas â Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd Cymru. Mae'r gwelliant hwn yn golygu bod yn rhaid i'r Fframwaith **nodi'r cyfnod y mae'n effeithiol, a bydd y Fframwaith yn peidio â bod yn gynllun datblygu ar ôl y cyfnod hwnnw.** Roedd hwn yn un o argymhellion (20) y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, y dylid dod â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn unol â mathau eraill o gynlluniau datblygu (Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol).

Roedd Gwelliant 47 (Carl Sargeant) yn mewnosod is-adran newydd yn adran 60A (fel y caiff ei fewnosod gan adran 2 o'r Bil) o *Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004* mewn perthynas â **pharatoi**

**datganiad o gyfranogiad y cyhoedd** ar y gwaith o baratoi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Mae'r gwelliant hwn yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad yn nodi y caiff yr ymgynghoriad ar y Fframwaith drafft ei gyhoeddi, ac y bydd yn caniatáu 12 wythnos ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd ar y drafft hwnnw. Roedd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn argymell (17) y dylai'r cyfnod ymgynghori fod ar wyneb y Bil, er ei fod hefyd yn ystyried y dylai'r cyfnod fod yn hwy na 12 wythnos.

Roedd Gwelliant 47 (Carl Sargeant) yn mewnosod is-adran newydd yn adran 60b (fel y caiff ei fewnosod gan adran 2 o'r Bil) o *Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004,* sy'n ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

Mae'r gwelliant hwn yn golygu, os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn pasio penderfyniad neu'n gwneud argymhelliad ynghylch y drafft yn ystod y cyfnod ystyried, **rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Cynulliad yn egluro sut y maent wedi rhoi sylw** i'r penderfyniad a'r argymhellion. Roedd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn argymell (18) y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i gael gwared ar unrhyw gyfyngiadau ar drefniadau craffu'r Cynulliad ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

## Cynlluniau Datblygu Strategol

Roedd Gwelliant 7 (Carl Sargeant) yn mewnosod Adran newydd ar 'Hawliau pleidleisio' yn Atodlen 1. Mae'r gwelliant hwn yn golygu **nad oes gan aelodau enwebedig o Baneli Cynllunio Strategol hawliau pleidleisio.** Mae Adran 3 o'r Bil yn cyflwyno pwerau i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol, ac mae'n sefydlu Paneli Cynllunio Strategol. Roedd cael gwared ar hawliau pleidleisio ar gyfer aelodau enwebedig yn un o argymhellion (21) y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

Roedd Gwelliant 8 (Carl Sargeant) yn diwygio Atodlen 1, i'w gwneud yn ofynnol i'r Rheolau Sefydlog ar gyfer cyfarfodydd panel bennu bod **o leiaf hanner yr aelodau o'r awdurdod cynllunio lleol yn bresennol** ym mhob cyfarfod o'r Panel Cynllunio Strategol **er mwyn sicrhau bod cworwm**.

## Ceisiadau i Weinidogion Cymru

Roedd Gwelliant 53 (Carl Sargeant) yn mewnosod Adran newydd yn y Bil. Bydd yr adran hon yn mewnosod Adran 62L newydd yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r gwelliant hwn yn golygu cyflwyno **amserlen statudol ar gyfer Gweinidogion Cymru i benderfynu ar geisiadau** am ganiatâd cynllunio a wneir iddynt fel Datblygiadau o Bwys Cenedlaethol ac unrhyw ganiatadau eilaidd a gyflwynir ar yr un pryd. Y gofyniad yw bod Gweinidogion Cymru yn **penderfynu ar geisiadau o'r fath o fewn 36 wythnos** o dderbyn y cais. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, gyfnewid y cyfnod o 36 wythnos am gyfnod gwahanol. Byddai'r gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol (gwelliant 55). Gallant hefyd, drwy hysbysiad, atal y gwaith o gynnal yr amserlen ar gyfer cais penodol, a gallant hefyd derfynu, lleihau neu estyn cyfnod presennol o atal dros dro, drwy roi hysbysiad i'r ceisydd, yr awdurdod cynllunio lleol ac unrhyw bersonau cynrychiadol.

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru **osod adroddiad blynyddol** gerbron y Cynulliad yn nodi eu bod wedi **cydymffurfio** â'r gofynion uchod.

Roedd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn argymell (30) y dylai amserlen statudol hwyaf ar gyfer penderfynu ynghylch ceisiadau Datblygiadau o Bwys Cenedlaethol fod ar wyneb y Bil.

## Datganiadau Dylunio a Mynediad

Roedd Gwelliant 29 (Carl Sargeant) yn dileu Adran 27 (Datganiadau Dylunio a Mynediad) o'r Bil. Mae'r gwelliant hwn yn golygu bod yn **rhaid i ddatganiadau dylunio a mynediad barhau i gael eu cyflwyno** gyda cheisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer rhai mathau o ddatblygiad, fel y pennir mewn gorchymyn, ac ar gyfer ceisiadau am ganiatâd o ran adeiladau rhestredig. Roedd hwn yn un o argymhellion (39) y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

## Parciau Cenedlaethol

Roedd Gwelliant 54 (Carl Sargeant) yn mewnosod adran newydd yn y Bil ynghylch byrddau cynllunio ar

y cyd a Pharciau Cenedlaethol. Mae'r gwelliant hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymestyn y darpariaethau presennol yn Adran 2 o *Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990* i gynnwys ardaloedd y Parciau Cenedlaethol drwy gyfrwng rheoliadau. Mae hyn yn golygu y **gall Gweinidogion Cymru drosglwyddo swyddogaethau rheoli datblygu** (h.y.: caniatâd cynllunio, caniatâd Adeiladau Rhestredig, caniatâd Sylweddau Peryglus) **Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i Fyrddau Cynllunio ar y Cyd** pan fydd Parc Cenedlaethol yn rhan o ardal Bwrdd. Mae'r rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Roedd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn argymell (15) gadael y Bil fel y'i drafftiwyd yn wreiddiol mewn perthynas â Pharciau Cenedlaethol.

### Meysydd Tref a Phentref

Roedd Gwelliannau 19-22 (Carl Sargeant) yn dileu ac yn disodli'r tabl yn Atodlen 6 o'r Bil ac yn diwygio'r dehongliad ar ôl y tabl. Diben y gwelliannau yw dileu a disodli'r tabl yn Atodlen 1B o *Ddeddf Tiroedd Comin 2006*. **Mae'r gwelliannau hyn yn cael gwared ar lawer o'r digwyddiadau sbardun a oedd yn y Bil fel y'i cyflwynwyd, a fyddai wedi eithrio hawl person i gofrestru tir yn faes tref neu bentref.** Y digwyddiadau sbardun sy'n weddill yw pan fydd naill ai caniatâd cynllunio, gorchymyn datblygu lleol neu orchymyn caniatâd datblygu (*Deddf Cynllunio 2008*) yn cael ei roi ar gyfer datblygu'r tir. Mae hwn yn unol ag un o argymhellion (40) y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

Roedd gwelliant 57 (Carl Sargeant) yn tynnu Adran 47 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd. Mae'r gwelliant hwn yn cael gwared ar y diwygiadau i Adran 15 o *Ddeddf Tiroedd Comin 2006* a fyddai wedi newid y "cyfnod perthnasol" y **gall cais i gofrestru maes tref neu bentref gael ei gyflwyno**, o ddwy flynedd i un flwyddyn. **Felly, mae'r gwelliant hwn yn cadw'r sefyllfa fel y mae, sy'n golygu mai dwy flynedd fydd y "cyfnod perthnasol" o hyd.** Roedd yn un o argymhellion (41) y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

## Rhagor o wybodaeth

Adroddiad **Cyfnod 1** y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar y Bil.

Adroddiad **Cyfnod 1** y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y Bil.

I gael rhagor o wybodaeth am y Bil, cysylltwch ag Alun Davidson, y clerc sy'n bennaf cyfrifol amdano, (**Alun.davidson@cynulliad.cymru**)